



Gofal Iechyd Plant

Mae'r ffordd yr ydym yn darparu gofal iechyd yng Ngwent yn newid

Bydd ein gwasanaethau ysbyty i blant yn newid pan fydd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn agor (17 Tachwedd 2020).

Bydd plant sydd angen triniaeth frys yn mynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor lle bydd meddygon a nyrsys plant arbenigol wedi'u lleoli'n ganolog.

Bydd yr holl welyau ysbyty i blant a'r **Uned Asesu Brys i Blant** hefyd wedi'u lleoli yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Bydd Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr yn parhau i ddarparu ystod eang o apwyntiadau cleifion allanol arferol ar gyfer plant a llawdriniaethau dydd dewisol penodol.

Bydd **Unedau Mân Anafiadau** lleol i blant (dros 1 oed) yn aros yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Ystrad Fawr, ac Ysbyty Aneurin Bevan. **Bydd angen i bob plentyn o dan 1 oed gael eu gweld yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.**

Pa wasanaethau i blant fydd ar gael yn ein prif ysbytai:

	Ysbyty Athrofaol y Faenor	Ysbyty Brenhinol Gwent	Ysbyty Nevill Hall	Ysbyty Ystrad Fawr	Ysbyty Aneurin Bevan
Wardiau cleifion mewnol	✓	X	X	X	X
Uned Asesu Plant	✓	X	X	X	X
Mân Anafiadau	X	✓	✓	✓	✓
Adran Achosion Brys i Blant	✓	X	X	X	X
Cleifion Allanol	X	✓ Ysbyty Gwynllyw	✓	✓	✓



Gwasanaethau Mamolaeth

Bydd clinigau cynenedigol, genedigaethau arferol dan arweiniad bydwragedd a chlinigau ôl-enedigol yn digwydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr.

Bydd pob genedigaeth dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol yn digwydd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, gyda chanolfan ychwanegol ar gyfer genedigaethau dan arweiniad Bydwragedd yn yr ysbyty.





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dyfodol  Clinigol
Clinical Futures

BYDD GWASANAETHAU GIG I BLAT YN NEWID

pan fydd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn agor



FFONIWCH 999 NEU EWCH I YSBYTY ATHROFAOL Y FAENOR

Os oes gan eich blentyn SALWCH A ALLAI BERYGLU BYWYD
neu ANAF DIFRIFOL

(Bydd angen i blant dan 1 oed fynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor ar gyfer mân anafiadau).



EWCH I UNED MÂN ANAFIADAU

Yn Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Ystrad Fawr neu Ysbyty Aneurin Bevan,
os oes gan eich plentyn (dros 1 oed) mân glwyfau, llosgiadau neu sgaldio /
brathiadau pryfed / mân anafiadau i'r braich neu goes / mân anaf i'r pen neu'r wyneb /
mân anaf i'r llygaid / pethau estron yn y trwyn neu'r glust.



CYSYLLTWCH Â'CH MEDDYG TEULU

Os oes gan eich plentyn tymheredd uchel, neu salwch neu pryderon eraill nad ydynt yn
rhai brys. Eich Meddygfa ddylai fod eich man galw cyntaf am afiechydon nad ydynt
yn rhai brys – gallant gyfeirio eich plentyn i'r ysbyty os oes angen.



FFONIWCH GIG 111 Cymru

Os yw'ch plentyn yn sâl, ac rydych chi'n ansicr beth i'w wneud
ac angen cymorth. Gallwch hefyd ffonio 111 i gael gofal
Meddyg Teulu brys pan fydd eich meddygfa ar gau.



TRIN GARTREF neu GYSYLLTU Â'CH FFERYLLYDD

Os oes gan eich plentyn fân salwch neu anhwylder
megis llwnc tost, peswch, llid croen neu salwch ysgafn cyffredin.

Am ragor o wybodaeth ewch i: bipab.gig.cymru.

Dilynwch ni i gael y wybodaeth ddiweddaraf neu i ofyn cwestiwn:



@BIPAneurinBevan



BwrddIechydAneurinBevan